CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GWYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD CYNTAF BLYNYDDOL O GYNGOR SIR YNYS MÔN | FIRST ANNUAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFA'R SIR<br>LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI |
| DYDD IAU, 23 MAI 2013 | THURSDAY, 23 MAY 2013 |
| am 2.00 o'r gloch | at 2.00 pm |

# R H A G L E N

1 **CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd i Gyngor Sir Ynys Môn am 2013-14.

**(Cyfeirir yr Aelodau at y Drefn o Fusnes ynglyn â'r seremoni i ethol Cadeirydd y Cyngor Sir fydd yn cael ei roi gerbron yn y cyfarfod).**

2 **IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am 2013-14.

3 **CYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr ac unrhyw sylwadau terfynol gan y Cadeirydd sy'n gorffen ei dymor yn y swydd.

Sylwadau cloi gan y Cadeirydd ar ddiwedd ei dymor yn y swydd.

4 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb ynghylch unrhyw eitem o fusnes gan unrhyw Aelod neu Swyddog.

5 **CYFLWYNIAD YR YMGEISWYR I GEFNOGI EU HENWEBIAD I FOD YN ARWEINYDD Y CYNGOR** (Tudalennau 1 - 12)

Yn unol â Pharagraff 2.7.3.2 y Cyfansoddiad, yn dilyn cyflwyno eisoes gyflwyniad (maniffesto) ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr cyn 5:00 pm ar 9 Mai 2013 (y bydd yn rhaid iddo fod wedi ei gefnogi yn ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr gan 2 Gynghorydd arall), gwneir cyflwyniad llafar gan yr ymgeiswyr canlynol ar eu gweledigaeth a'i gwerthoedd:-

(a) Cynghorydd R G Parry, OBE
(b) Cynghorydd Ieuan Williams

**[Nodyn 1: Gofynnir i'r personau a enwebwyd gyflwyno eu cynigion a'u rhaglenni i'r Cyngor yn nhrefn yr wyddor ac fe ddylent ddisgwyl cael cwestiynau gan yr Aelodau].**

**[Nodyn 2: Ni ddylai'r cyflwyniadau fod yn fwy na 10 munud o hyd ac ni chaniateir i unrhyw gwestiynau o'r llawr fod yn fwy na 10 munud; gan wneud uchafswm o 20 munud i gyd i bob ymgeisydd].**

6 **PENODI ARWEINYDD Y CYNGOR SIR**

Ethol Arweinydd y Cyngor Sir Ynys Môn (fel arfer am dymor o 4 blynedd) yn unol ag erthygl 7 ac yn arbennig y rheolau gweithdrefn a geir dan Baragraffau 2.7.3.2.3 a 2.7.3.2.4 yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

7 **DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR SIR**

Arweinydd y Cyngor i hysbysu'r Cyngor o enw'r Dirprwy Arweinydd y mae ef wedi ei ddewis (bydd y Dirprwy Arweinydd yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith).

## 8 CADARNHAU PWYLLGORAU

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau ailbenodi'r strwythur Pwyllgor canlynol fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 Cyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol:-

- Panel Tâl a Graddfeydd (is-bwyllgor o'r Cyngor Sir)
- Panel Penodi'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol
- Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig
- Is-bwyllgor Indemniadau

**[Gofynnir yn garedig i Aelodau nodi y bydd y cyfarfod gohiriedig o'r Cyngor (yn unol â pharagraff 4.1.1.1.4 o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei gynnal am 2:00 pm ar ddydd Iau, 30 Mai 2013] (papurau i ddilyn).**